# Cybiau'r Sgowtiaid (8-10½ mlwydd oed) - Nodiadau Arweinwyr - Sialens Democratiaeth

## Amcanion

– Gallu deall beth mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud a sut mae gwaith Aelodau'r Cynulliad yn effeithio arnynt hwy. Mae hyn yn cyd-fynd â thema'r wobr, pobl a llefydd.

## Gofyniad 1

Darganfyddwch lle mae'r Senedd wedi'i lleoli. Ewch ati i greu poster i'ch helpu i egluro wrth oedolyn pwy sy'n cyfarfod yno a beth maent yn ei wneud.

## Adnoddau

– Llyfryn *Dy Gynulliad Di*

## Cyflwyniad

Rhowch y llyfryn *Dy Gynulliad Di* i'r Cybiau.

Gofynnwch iddynt ddarllen drwy'r llyfryn yn unigol neu mewn grwpiau. Gall arweinyddion helpu hefyd.

Gan ddefnyddio copi o'r murlun (tudalennau canol y llyfryn), gofynnwch iddynt nodi/roi cylch am yr holl bethau y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, gan ddefnyddio'r rhestr o 20 pwnc yn y llyfryn. (tudalen 15)

Gan ddefnyddio **gwefan** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gofynnwch iddynt ddarganfod pwy yw y 5 Aelod Cynulliad sydd yn cynrychioli nhw.

Sicrhewch eu bod yn deall y pethau sylfaenol - Sawl Aelod Cynulliad sydd, pwy sydd yn cynrychioli nhw, beth sydd yn digwydd yn y Senedd, sawl maes pwnc sydd a sut i gymryd rhan.

## Creu'r poster

Gan ddefnyddio'r wybodaeth y maent wedi'i dysgu yn barod gofynnwch iddynt greu poster yn egluro wrth oedolyn pwy sy'n cyfarfod yn y Senedd a beth maent yn ei wneud.

Gofynnwch i'r Cybiau ddangos eu posteri i weddill y grŵp ac egluro'r cynnwys.

# Cybiau'r Sgowtiaid (8-10½ mlwydd oed) - Nodiadau Arweinydd - Sialens Democratiaeth

## Gofyniad 3

Cymerwch ran weithgar mewn dau fforwm pac a chynorthwyo i wneud o leiaf un penderfyniad.

## Adnoddau

–Copi papur a chopi PowerPoint o gwis Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
–Templed 5 addewid maniffesto (i'w ddefnyddio gydag opsiwn 1 isod)
–Arwyddion IE/NA ar gyfer y wal bleidleisio (i'w defnyddio gydag opsiwn 1 isod)
–Templed papur pleidleisio (i'w ddefnyddio gydag opsiwn 2 a 3 isod)

## Cyflwyniad

Cwis Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Opsiynau - copi papur i unigolion **neu** fersiwn PowerPoint sydd yn ei gwneud yn weithgaredd mwy ymarferol.

## Prif Weithgaredd

Cymerwch ran mewn gweithgaredd pleidleisio - cyfrif fel gêm a chyfle i wneud penderfyniad - 3 opsiwn gweithgaredd pleidleisio.

## Opsiwn 1

Gofynnwch i ddau arweinydd/gwirfoddolwr ysgrifennu rhestr o 5 addewid (pethau mae'n nhw yn gaddo eu gwneud i fod yn arweinydd/gwirfoddolwr da). Sicrhewch bod rhai ohonynt yn rhai y byddai'r sgowtiaid yn falch ohono a rhai eraill na fyddent yn pleidleisio amdanynt.
–Sefydlwch wal IE / NA yn yr ystafell.
–Gofynnwch i'r arweinyddion/gwirfoddolwyr ddarllen eu rhestr o addewidion. Ar ôl i bob un ddarllen eu rhestr gofynnwch i'r coloni bleidleisio IE neu NA i bob arweinydd/gwirfoddolwr.
–Cyfrifwch y pleidleisiau ar gyfer pob un a datgan un yn enillydd.

## Opsiwn 2

–Gosodwch 4 bowlen ar fwrdd, gyda phob bowlen yn cynnwys gwahanol flasau o greision, gwahanol fathau o fferins/losin, gwahanol fathau o siocled er enghraifft.
–Dywedwch wrth y Sgowtiaid y cânt fynd i flasu o bob un bowlen.
–Unwaith mae'n nhw wedi blasu o bob bowlen gofynnwch iddyn nhw eistedd a meddwl am ba un oedd y gorau ganddynt a pha un ddylai fod yn fyrbryd swyddogol y 'Colony Log Chew'.
–Yn nghornel yr ystafell gosodwch fwrdd gyda bocs pleidleisio a phapurau pleidleisio.
–Gofynnwch i bob unigolyn fynd i fyny a phleidleisio dros eu hoff fyrbryd.
–Cyfrifwch y pleidleisiau a cyflwynwch y canlyniadau. Sut mae'n nhw'n teimlo?

## Opsiwn 3

–Rhannwch y Cybiau yn 4-5 grŵp.
–Eglurwch bod yn rhaid i bob grŵp feddwl am rywle yr hoffent fynd ar ymweliad ar daith Sgowtiaid (Gall yr arweinydd ddarparu rhestr o leoliadau posibl yn yr ardal e.e. Cestyll, Amgueddfeydd, Parciau dŵr, Parciau thema)
–Rhaid i bob grŵp wneud gwaith ymchwil ar y lleoliad ac ysgrifennu maniffesto (i'w ysgrifennu ar y templed 5 addewid maniffesto) - eglurwch mai maniffesto yw rhestr o bethau da am y lleoliad. Gall hyn gynnwys pethau i'w gwneud yn y lleoliad, beth y byddent yn ei ddysgu ac ati.)
–Unwaith maent wedi cwblhau eu maniffestos gofynnwch i bob grŵp eu cyflwyno i weddill y grwpiau.
–Unwaith y bydd pob grŵp wedi cyflwyno eu maniffestos ewch ati i gynnal pleidlais i weld pa leoliad oedd y gorau - templed papur pleidleisio wedi'i gynnwys i'w ddefnyddio. Bydd angen i'r arweinydd lenwi'r daflen gydag enwau'r lleoliadau y soniodd maniffestos pob grŵp amdanynt. Neu roi lliw i bob grŵp.